**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Cyfarfod aml-leolaid – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Llun, 20 Mawrth 2023, am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | R Fogarty | V A Holland |
| M Jones | H Lawson | W G Lewis |
| F D O'Brien | S Pritchard | M S Tribe |
| T M White | | |

**Aelod(au) Cyfetholedig Statudol**

| | |
|---|---|
| Beth Allender | Elizabeth Lee |

**Cynghorwyr sy'n Aelod(au) Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| C A Holley | P R Hood-Williams |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Matthew Bowyer | Arweinydd Grŵp, Priffyrdd a Chludiant |
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Alan Ferris | Rheolwr Diogelwch ar y Ffyrdd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd A Stevens, Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: S M Jones ac L R Jones

---

## 94 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 95 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 96 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 97 Craffu Cyn Penderfynu: Terfyn Cyflymder Diofyn 20mya Cenedlaethol gan gynnwys Ystyried y Broses Eithrio

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad y Cabinet a oedd yn cynghori Aelodau ar y cynnig i wneud y terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol ar ffyrdd cyfyngedig yn 20mya ac yn manylu ar y ffyrdd hynny a fydd yn cael eu heithrio ac sy'n parhau ar gyflymder o 30mya.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y broses ymgynghori i'w dilyn a'r ymagwedd a ddefnyddiwyd mewn perthynas â rhoi'r gofyniad ar waith, gyda'r gostyngiad yn y terfyn cyflymder diofyn yn dod i rym ar 17 Medi 2023.

Manylodd y Rheolwr Diogelwch Ffyrdd ar roi'r terfyn cyflymder 20mya cenedlaethol a'r broses eithrio ar waith.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyllid – Swyddogion i ddarparu dadansoddiad manwl o'r gost o roi'r mesurau hyn ar waith, y mae'r costau'n cael eu ceisio gan Lywodraeth Cymru.
- Materion o ran cydymffurfio a gorfodi.
- Pwysigrwydd cadw arwyddion/marciau ffordd presennol sy'n gyson â'r terfyn cyflymder newydd, yn enwedig o amgylch ysgolion, i'n hatgoffa o'r terfyn ac i atgyfnerthu'r neges am y gostyngiad mewn cyflymder.
- Faint o gyfathrebu cyhoeddus sydd ei angen a rôl y cyngor wrth sicrhau bod hyn yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.
- Ymgysylltu â Chynghorwyr Lleol.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd, a'r swyddogion a oedd yn bresennol, am yr wybodaeth a ddarparwyd gan gynnwys cyngor technegol, ac am gynorthwyo'r Pwyllgor wrth drafod yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y bydd y Cadeirydd yn bresennol yng nghyfarfod y Cabinet ar 23 Mawrth 2023 i fynegi barn y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.47pm